# Glas

**Rhif 214**

**Rhagfyr 2025**

Llên natur
Cymdeithas Edward Llwyd

**Bwletin misol**

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd




**- Ehedydd y Traeth -**
*Ymwelydd prin â Chymru*
Y Gogarth, 13 Tachwedd 2025
**Gwilym A Roberts**

**Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**

Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

## Llewyrch yr Arth a Chymylau

**Weithiau mae'n braf cael pethau eraill o flaen y Goleuni**




*Rhai o'r lluniau o'r Awrora a dynnwyd o Gwrt Trawsfynydd yn gynnar yn y bore heddiw, 12fed Tachwedd 2025, mae'n drueni bod y cymylau wedi rholio i mewn.*

**Chwiliwch am luniau Emil Nolde**

## Rhew Cyntaf 2025

Gorfu i mi grafu rhew oddi ar ffenest flaen fy fan y bore 'ma. Yr ail hwyraf ers y flwyddyn 2008 yn Rhuthun. **Iwan Williams**




Mae graff iwan yn dangos yr amrywiad blynyddol cronolegol yn nyddiad y rhew cyntaf ar ôl yr 22ain medi ers y flwyddyn 2008 (mae Iwan yn selog iawn yn rhannu ei wybodaeth yn Llên Natur). Er gwaethaf yr amrywiad mawr sy'n ein dallu braidd i'r tueddiad, mae'r llinell atchwel fathemategol (*linear regression*: coch) yn cydfynd efo hwyrhâu graddol yn nyddiad ymddangosiad y rhew cyntaf ar sgrîn wynt ei fan yn Rhuthun. Mae hynny yn gyson â'r hyn a ddisgwylid wrth i aeafau fynd yn fwy tyner gyda chynhesu'r hinsawdd.

## Ble mae Wali?



**Gwyddau Canada, Glan y Môr Elias**
**Llanfairfechan, 20 Hydref 205**
**Eirlys Behi-Edwards**

## Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni:
bwletinglas.llennatur@gmail.com

## Brithyll yn claddu










Barrug yn gyrru'r pysgod i ddechrau claddu ym Mhenllyn (Llyn Padarn). Claddiadau wedi ymddangos ers dydd Llun uwchlaw i Bont Penllyn. Darnau o raean glân (mwy golau ei liw), yma ac acw ar wely'r llyn. Wedi eu nodi: ① claddiad mwy ei faint? <u>sewin</u>. ② & ③ <u>claddiadau brithyll</u> mae'n debyg. Wrth edrych ymhellach i'r llyn mae clwstr o gladdiadau mân - haws eu gweld efo llygad na drwy'r camera - dwi wedi eu marcio efo'r linell las ar yr ail lun. Mae rhain yno ers rhyw bythefnos - <u>brithyll</u>.

Ar lun arall o faw adar (diolch i Huw Hughes, Glanfa), yn Llyn Nantlle ddoe. Bilidowcar wedi bod yn manteisio a gwledda ar bysgod yn claddu - baw adar ac wyau ar breniau'r lanfa.

**Robin Parry**

Heth mis Tachwedd mewn 4 llinell (Waunfawr, diolch i Gethin Pritchard, Gorsaf Tywydd Maes Gwynedd).

**DB (Llên Natur)**








## Doethineb Caernarfon



**WELSH LESSON** 🏴󠁧󠁢󠁷󠁬󠁳󠁿 💚 *Sea bass* = Draenog y môr. *'The hedgehog of the sea'. Have a go saying it my G: "DRAY-NOG UH MORE"*

*The old Welsh fishing communities didn't f**k around when it came to naming things. A name brought by hand feel, nature and resemblance. I love how rich in meaning Welsh names are… Grab a Sea bass the wrong way and it'll tell you immediately! Those dorsal barbs snap up like a hedgehog's defence - spiky AF.*

Diolch c**t! 🐟 🦔 🌊




Pysgodyn sy'n byw yn y môr ac sy'n perthyn i deulu'r *<u>Moronidae</u>* ydy'r draenogyn môr sy'n enw gwrywaidd; lluosog: draenogiaid môr *(<u>Dicentrarchus labrax</u> - European seabass).*

Mae ei diriogaeth yn cynnwys Ewrop, Affrica, Môr y Gogledd, y Môr Du, y Môr Canoldir a Chefnfor yr Iwerydd. Mae i'w ganfod ym Môr y Gogledd ac arfordir Cymru.

Ar restr yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (UICN), caiff y rhywogaeth hon ei rhoi yn y dosbarth 'Lleiaf o Bryder' o ran niferoedd, bygythiad a chadwraeth.


**Ar Wicipedia Cymraeg**

# Ehedydd y Traeth









**Map GBIF**
**Map yn esbonio y tueddiad gogledd-dwyreiniol. Gweler hefyd dolen RSPB (Prydain).**





Ehedydd y Traeth, *(Shore Lark)* ymwelydd prin iawn â Chymru. Tynnwyd y lluniau ar un o lethrau y Gogarth 13 Tachwedd 2025. **Gwilym A Roberts**



Ehedydd y traeth, Y Gogarth, 17 Tachwedd 2025
**Eifion Griffiths**

**Aderyn y mis:** ar wefan yr RSPB

## 'Tân las' - tan eira






**Fflam las** yn y tân heno. Roedd fy nhaid yn arfer dweud mai arwydd o dywydd oer oedd hyn. Clydach, Cwm Tawe 16.11.2025. **Dewi Lewis** yn enedigol o Borthmadog

Eira fydda Taid a Nain yn ddeud a gwynt yn was bach yr eira hefyd. **Llinos Eames Jones**

Dywedai Mam mai niwl oedd gwas yr eira hefyd! Diddorol ydy'r hen ddywediadau yma! [Porthmadog, efallai?] **Sian Rees**

**O ble daeth y cofnodion eraill?**

- **Ardal Uwchaled**
- **Mynytho**
- **Sir Gonwy**
- **Pistyll**
- **Dyffryn Nantlle**
- **Llangwnadl**
- **Castell Newydd Emlyn?** [yr ynig un o'r De]
- **Mynydd Llandegai**

...a 22 o gofnodion eraill heb eu lleoli.
Nid yw'n ddywediad Cymraeg - roedd fy nheulu Saesneg yn dweud yr un peth. Mae'n debyg bod y gwyriad i'r gogledd yn y rhestr yn adlewyrchu gwyriad sydd yn nosbarthiad aelodaeth Cymuned Llên Natur.

Beth yw'r gwyddoniaeth y tu ôl i'r llên gwerin gyfarwydd hon? **Gweler y ddolen** **DB**

Llên Natur - Y carbon yn llosgi'n gyflawn. **Dewi Lewis**

## Adar Llyn Celanedd ger Bangor




Mae Cymuned Llên Natur wedi hen arfer efo'r enw newydd yn barod. **Parhad mis nesaf**.

Llyn Celanedd, Aber Ogwen 06/10/2025 Gwyach Bach
Eirlys Edwards-Behi

Glas yn codi o'r Llyn - Llyn Celanedd, Aberogwen Glas y dorlan.
Nia Evans

Glas y dorlan, Awst 29, Llyn Celanedd. Glas y dorlan
Alun Williams

Cnocell Fraith Fwyaf, Llyn Celanedd, Aberogwen, 17eg Hydref, 2025. Cnocell fraith fwyaf.
Greta Hughes

Rhegen y dŵr, Llyn Celanedd, Aberogwen, 17eg Hydref, 2025. Rhegen y dŵr.
Greta Hughes

**Beth yn well na'r detholiad yma o luniau i ddangos gwerth y warchodfa hanesyddol hon?**

**Llên Natur**

Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus diweddar, mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru **wedi penderfynu defnyddio'r enw hanesyddol** 'Llyn Celanedd' yn hytrach na'r enw mwy diweddar '*Spinnies* Aberogwen' ar gyfer ein gwarchodfa natur tra hoff ger Tal-y-bont...

**Cyflwyniad gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru am y newid enw - 29 Hydref 2025**

## Llyn y Dywarchen - Wynne Evans ■ dolen










# "Rhif 449 a Rhif 450"





Mae cwrdd â defnyddwyr canolfanau lleol yn gallu bod yn gyfle i ddarganfod talent unigryw. Wnes i sylwi bod 'na gymdeithasau o bob math yn ymarfer neu yn cynnal sioeau. Un o'r rhain oedd grŵp adluniad oedd yn ymarfer gyda chleddyfau trwm.

I rhywun sydd â diddordeb ym myd natur bu ymuno â sioe (busnesu i ddweud y gwir!) yn gyfle i ddarganfod nodwedd mewn byjis nad oeddwn i'n gwybod amdano.

Os ydych chi'n edrych yn agosach ar y lluniau hyn, maent yn dangos sioe sirol byjis, ar rhyw fore Sul, yn Nhregarth. Roedd eu perchnogion wedi eu tynnu o'u cartrefi clud ac wedi eu rhoi mewn cewyll. Roedd yr awyrgylch yno fel petai mewn eisteddfod a beirniadu oedd yr agwedd bwysicaf. A dyma un o'r dynion, pan oeddwn i ar fin gadael, yn pwyntio at ddau fydji (mae Geiriadur yr Academi yn cynnig yr enw parotan hefyd), dim cweit yn debyg i'r, lleill sef "hanner-ochrogion", *S. halfsiders*.

Edrychwch ar y lluniau ac mi sylwch chi bod yr hen Rhif 449 yn wyrdd un ochr a glas ochr arall. Ar y llaw arall mae Rhif 450 yn felyn i gyd ond mae patrymau du ar y chwith yn hollol wahanol i'r patrymau ar yr ochr dde.





---

Mae gan wyddoniaeth, bywydeg yn yr achos yma, ateb i'r nodwedd unigryw a phrin hon: Mae byjis hanner-ochr yn adar sy'n arddangos un lliw ar un ochr i'w corff a lliw gwahanol ar y llall.

Mae gan y byji hanner-ochrog gyflwr cynhenid anarferol ac nid yw oherwydd mwtadiad genetig syml, fel amrywiadau lliw a phatrwm, yn y rhywogaeth hon. Mae'n enghraifft brin o **gimera tetragametig**, sy'n tarddu pan fydd dau embryo wedi'u ffrwythloni, yn uno yn ystod cyfnod cynnar y datblygiad. Mae gan bob hanner DNA gwahanol. Mae celloedd yn wahanol yn enetig, ac mae'r aderyn mewn gwirionedd yn "ddau fyji" wedi'u hasio i ffurfio un unigolyn ymreolaethol.

Fel arfer mae lliw'r hanner ochr wedi'i rannu'n ddwy ochrog i lawr y canol, er y gall amrywio yn dibynnu ar ba gam y gwnaeth yr **embryonau gefeillaidd** uno yn ystod y datblygiad. Bydd embryonau gefeillaidd a unodd, yn ddiweddarach yn y datblygiad, yn arwain at fyji sydd â phatrwm mwy smotiog (hynny yw y **ffenoteip** - y **genoteip** yn y gell sydd yn rheoli hwnnw) o'r gwahanol boblogaethau cellaidd.




Pe bai'r ddau "hanner" yn perthyn i'r un genoteip (sylfaen y lliw), byddai'n dal i fod yn gimera "tetragametig", ond nid yn hanner-ochrog. Mae hefyd yn bosibl i'r hanner ochr fod yn wryw ar un ochr ac yn fenyw ar yr ochr arall. Mae'n enghraifft o "**gynandromorff**" dwyochrog.

[Gwybodaeth: Wikipedia a chyfiethiad AI wedi ei olygu] **DK**

**Efallai mai'r cyfraniad mwyaf technegol sydd wedi ymddangos yn Glas erioed ydi hwn. Da i'w weld - a gobeithio gewch chi'ch herio. Mae'n stori ddiddorol iawn, ac yn perthyn i ysbryd llawn prosiect Llên Natur. Mae'r tîm yn awyddus i wirio'r ffeithiau gydag arbenigwr cymwys. Gweler erthygl arall sylweddol ar y byji yn Glas rhif 205, ym mis Chwefror eleni.**

# Ymweld ag amgeuddfa celf fodern



Mae'r paentiad *«L'enfant berger Marie Ressort»* - Marie Ressort y fugeiles - gan Roger de la Fresnaye yn ddarlun tynnodd fy sylw pan gawsom gyfle i ymweld ag Amgeuddfa Celf Fodern yn Troyes yn ddiweddar (M.A.M. Troyes).

Priodas ym mhrifdinas hardd ardal Champagne yn Ffrainc oedd yr esgus i ymweld â'r casgliad arbennig sydd i'w weld, mewn distawrwydd ac yn hamddenol, yno.

Portread Marie Ressort fechan ydi'r llun dwi'n cofio orau, oherwydd y cysylltiad wnes i, heb feddwl gormod, gyda geiriau cân mewn Llydaweg. Mi wnaeth R. de la Fresnaye beintio bugeiles ifanc yn gofalu am ei phraidd o ddefaid yng nghefn gwlad, hynny ym 1910. Mae'r llun yn dweud llawer, yn enwedig am arddull yr artist. Mae cân Ar vugulez (Y Fugeiles) gan Gwilham ar Borgn o Seglian (ardal Gwened) yn manylu llawer am fywyd lafurus, hapus ar un llaw, di-nod ar y llaw arall? Rydym yn dysgu beth oedd gobeithion bugeiles o'r un oedran, ac o'r un cyfnod â Marie o Champagne, y ddwy'n edrych yn fodlon eu byd, mewn cymdeithas amaethyddol oedd yn bur aml yn ddigon caled a llwm. **DK**

## Ar Vugulez

**1**
**Pep mitin, hañv ha goañv,**
**D'ar lann get ma loened eh an,**
**Hag e-pad an deiz men gan.**
**2**
**Ya, men gan hag a ziskan**
**Rak àr an douar, bras na bihan**
**En deus ur vuhez ker skañv.**

**3**
**Ar bugul get e foet darzh;**
**Me, azezet e-tal ar c'harzh,**
**Me nez ar stoup hag ar c'houarc'h.**
**4**
**Man gwerzhiad pa vez nezet,**
**E-raok dastum holl ma loened,**
**Ma loened korn, man deñved.**
**5**
**Get un tammig tralala,**
**Me sailh ar gordenn, a zañsa**
**Ha d'an holl me holleika.**
**6**
**Pa gasan ma saout d'ar gêr,**
**Int ev er fantan dour sklêr**
**Me ivez pa 'm bez dober.**
**7**
**Goude em bez, 'barzh ar c'hraou,**
**Staget ar buoc'hed,**
**Roet dezhe boued, brec'hadoù.**
**8**
**Me ra ar labour en ti.**
**Ar vestrez 'lies a c'hoari;**
**Met neuze me c'hoarzh geti.**
**9**
**A pa vez debret ma c'hoan,**
**Gwalc'het ar skudelloù d'am foan;**
**Skubet an ti hir ha moan.**
**10**
**Ha kempennet ar menaj;**
**Torchet ar gloestroù, an houarnaj,**
**Me ya d'ar c'hraou da filaj.**
**11**
**Ha get ar soñj e ma fenn,**
**Bemnoz da Zoue e ma fedenn,**
**Setu amañ man goulenn:**
**12**
**Un deiz mar bin-me mestrez,**
**Da vout eürus, roit din ar c'hres,**
**Èl a pa oan bugulez.**

## Y Fugeiles

1
Bob bore, haf a gaeaf,
Rwy'n mynd i'r gors gyda'm anifeiliaid,
Ac yn ystod y dydd rwy'n canu.

2
Ydw, rwy'n canu, ac yn canu,
Oherwydd ar y ddaear, nid oes gan neb, mawr neu fach,
Fywyd mor ysgafn.

3
Mae'r bugail gyda'i chwip yn clecian;
Fi, yn eistedd wrth y gwrych,
Rwy'n nyddu llin a chywarch.

4
Fy werthyd, pan fydd wedi'i orffen,
Cyn casglu fy holl anifeiliaid,
Fy ngwartheg, fy nefaid.

5
Gydag ychydig o "ffaldi-la",
Rwy'n neidio trwy raff, rwy'n dawnsio
Rwy'n "bloeddio" canu wrth bawb.

*holleika* = bloeddio canu wrth ddefaid
***Cynigion gan rhywun am alw'r defaid yn y Gymraeg?***

6
Pan fyddaf yn mynd â fy ngwartheg gartref,
Maent yn yfed o'r ffynnon dŵr glan,
Fi hefyd, pan fyddaf yn sychedig.

7
Pan fydd gwaith y beudy wedi'i orffen.
Wedi rhwymo'r buchod,
Wedi rhoi bwyd iddynt, bwndeli...

8
Rwy'n gwneud y gwaith yn y tŷ.
Mae'r feistres yn aml yn chwarae;
Ond pryd hynny rwy'n chwerthin gyda hi.

9
A phan fyddaf wedi bwyta fy swper,
Wedi golchi'r llestri am fy mhoen;
Wedi ysgubo'r tŷ yn drylwyr...

10
Ac unwaith y bydd y cartref yn dwt,
Wedi polisho'r dodrefn, y platiau metel,
Af i'r sied, i hwyl y noson ganu.

11
Gydag un syniad yn fy mhen,
Drwy weddïo i Dduw bob nos,
Dyma fy nghwestiwn:

12
Un diwrnod pan fyddaf yn feistres,
I fod yn hapus, rhowch y gras i mi,
Yn union fel pan oeddwn yn blentyn.

# Cymdeithas Edward Llwyd

Ap gan


## Pl@ntNet

Mae'n bosib ers tua blwyddyn gyrchu ap adnabod planhigion gwyllt PlantNet yn Gymraeg a derbyn enw eich planhigyn YN y Gymraeg. Mae hyn yn ddatblygiad dan ofal (a gwaith caled) John Griffith, ar y cyd a PlantNet, a gyda chefnogaeth Cymdeithas Edward Llwyd. Rhannwyd yr enwau a ddatblygwyd gan y Gymdeithas dros yr hanner canrif ddiwethaf.


Os ydych chi wedi gosod eich ffôn eisoes yn yr iaith Gymraeg mi fydd yr ap yn Gymraeg yn syth. Fel arall mi gewch ddewisiadau o'r ieithoedd ar ôl lawrlwytho'r ap o'r Apple Store neu debyg.

Mwynhewch yr adnabod Cymraeg.

**Dyma sampl ar ôl holi beth yw'r planhigyn** - sef moron gwyllt.



Cymdeithas Edward Llwyd




Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda